



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

TYLLU PERSONOL

Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017

Gwybodaeth i blant a phobl ifanc o dan 18 oed, a'u rhieni/
gwarcheidwaid, am y gyfraith newydd ar dyllu personol

Cynnwys

1. Cyfraith newydd ar roi twll mewn rhan bersonol o gyrff pobl ifanc o dan 18 oed yng Nghymru 3
2. Cwestiynau ac Atebion i dy helpu di, dy rieni neu dy warcheidwaid, i ddeall y gyfraith newydd 3

Cyfraith newydd...

Mae bellach yn anghyfreithlon rhoi twll mewn rhan bersonol o'r corff i unrhyw un **dan 18** oed yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys y **tafod, tethi, y fron, bochau'r pen ôl a'r genitalia**.

Gofynnwch am ragor o wybodaeth gan eich tyllwr.

1. **Cyfraith newydd ar roi twll mewn rhan bersonol o gyrff pobl ifanc o dan 18 oed yng Nghymru**

O 1 Chwefror 2018 ymlaen, mae'n groes i'r gyfraith i unrhyw un roi twll mewn rhan bersonol o gorff plentyn neu berson ifanc o dan 18 oed yng Nghymru. Mae hefyd yn groes i'r gyfraith i 'wneud trefniadau' i roi twll mewn rhan bersonol o gorff plentyn neu berson ifanc o dan 18 oed yng Nghymru. Mae'r gyfraith newydd yn berthnasol i bawb yng Nghymru, nid dim ond i fusnesau tyllu'r corff. Bwriad y daflen wybodaeth hon yw helpu plant, pobl ifanc a'u rhieni/gwarcheidwaid i ddeall y gyfraith newydd.

Ystyr 'tyllu personol' yw gwneud twll mewn rhan bersonol o'r corff, gan gynnwys bronau, tethi, y pen ôl, y genitalia a'r **tafod**.

Pwrpas y gyfraith newydd yw amddiffyn plant a phobl ifanc o dan 18 oed rhag niwed posib i'w hiechyd oherwydd twll mewn rhan bersonol o'r corff. Hefyd, i atal plant a phobl ifanc o dan 18 oed rhag cael eu rhoi mewn sefyllfa lle gallent fod yn agored i niwed.

Rydw i o dan 18 oed – beth mae hyn yn ei olygu i mi?

Ni chaiff neb roi twll mewn rhan bersonol o dy gorff os wyt o dan 18 oed, hyd yn oed os wyt wedi cael caniatâd gan rywun dros 18. Nid ydynt yn cael gwneud cynlluniau na threfnu apwyntiad i roi twll mewn rhan bersonol o dy gorff, os wyt o dan 18 oed.

Rydw i'n 18 oed neu'n hŷn – beth mae hyn yn ei olygu i mi?

O 1 Chwefror 2018 ymlaen, os wyt yn 18 oed neu'n hŷn ac eisiau twll mewn rhan bersonol o dy gorff, galli ddisgwyl y bydd y tyllwr yn gofyn i ti brofi dy oed cyn rhoi apwyntiad i ti, ac i roi tystiolaeth o dy oed eto cyn gwneud y twll. Rhai ffyrdd o brofi dy fod dros 18 oed yw dangos dy basbort, trwydded yrru cerdyn ffotograff yr Undeb Ewropeaidd neu gerdyn adnabod ffotograffig yn dangos hologram y Cynllun Safonau Prawf Oedran (PASS) cenedlaethol

www.validateuk.co.uk/PASS-scheme-proof-of-age.

2. **Cwestiynau ac Atebion i dy helpu di, dy rieni neu dy warcheidwaid, i ddeall y gyfraith newydd**

Beth yw twll mewn rhan bersonol o'r corff? – Twll sy'n cael ei roi yn yr anws, y fron (gan gynnwys y deth a'r areola), boch y pen ôl, rhych y pen ôl, y pidyn (gan gynnwys y blaengroen), y perinëwm, y mons pubis, y sgrotwm, y **tafod** neu'r fwlfaf. Mae hyn yn berthnasol i bobl o bob rhywedd.

Beth mae'r gyfraith newydd yn ei olygu? – Mae'r gyfraith yn golygu na chaiff neb wneud twll mewn rhan bersonol o gorff plentyn neu berson ifanc o dan 18 oed yng Nghymru. Hefyd, ni chaiff neb **wneud trefniadau** (gwneud cynlluniau neu drefnu apwyntiad) i roi twll mewn rhan bersonol o gorff plentyn neu berson ifanc o dan 18 oed yng Nghymru.

A fydd yn bosib tynnu gwrthrych o ran bersonol o gorff plentyn o dan 18 oed? – Os oes gan blentyn neu berson ifanc o dan 18 oed dwll mewn rhan bersonol o'i gorff yn barod, wedi'i wneud cyn 1 Chwefror 2018, a'i fod yn methu tynnu'r

gwrthrych allan yn ddiogel ei hun heb dorri'r croen, dylai fynd at ei feddyg. Dylai fynd at y meddyg hefyd os yw eisiau cyngor ar ofalu am y twll.

Ydy'r gyfraith yn berthnasol i bawb yng Nghymru? – Ydy, mae'n berthnasol i unrhyw un sy'n gwneud twll mewn rhan bersonol o gorff person ifanc o dan 18 oed yng Nghymru, neu'n gwneud trefniadau i wneud hynny. Does dim gwahaniaeth a yw'r plentyn neu'r person ifanc yn byw yng Nghymru, neu ddim ond yn ymweld â'r wlad, ni fyddant yn cael gofyn i neb wneud twll mewn rhan bersonol o'u corff tra byddant yng Nghymru.

Ydy'r gyfraith yn berthnasol os nad yw'r plentyn neu'r person ifanc yn gorfod talu am gael gwneud y twll? – Ydy. Does dim gwahaniaeth a oes taliad yn cael ei wneud ai peidio – mae'r gyfraith yn dal yn berthnasol.

Beth os yw person yn ei arddegau, neu ei riant neu warcheidwad, yn rhoi caniatâd i'r twll gael ei wneud? – Does dim gwahaniaeth os yw'r person ifanc neu ei riant/gwarcheidwad wedi rhoi caniatâd i'r twll gael ei roi mewn rhan bersonol o'r corff: mae'r gyfraith newydd yn golygu nad oes gan neb hawl i wneud twll mewn rhan bersonol o gorff person ifanc o dan 18 oed.

A yw'r gyfraith yn berthnasol i'r DU i gyd? – Nac ydy, dim ond i Gymru.

A yw'r gyfraith newydd yn berthnasol i dwll mewn rhan bersonol o'r corff sydd wedi'i wneud o'r blaen? – Os oes gan blentyn neu berson ifanc o dan 18 oed dwll mewn rhan bersonol o'i gorff a oedd wedi'i wneud cyn 1 Chwefror 2018, ni fydd y person a wnaeth y twll yn mynd i drwbl o dan y gyfraith newydd. Ond, os byddant angen triniaeth feddygol i dwll a gafodd ei wneud cyn 1 Chwefror 2018, neu angen tynnu'r gwrthrych o'r twll oherwydd nad ydynt yn gallu gwneud hynny'n ddiogel eu hunain, bydd angen iddynt wneud apwyntiad gyda'u meddyg. Ni fydd ganddynt hawl i fynd yn ôl at y person a wnaeth y twll i ofyn iddo drin y twll neu dynnu'r gwrthrych.

Beth sy'n digwydd os bydd rhywun yn anwybyddu'r gyfraith ac yn gwneud twll mewn rhan bersonol o gorff plentyn neu berson ifanc o dan 18 oed? – Bydd yn drosedd i anwybyddu'r gyfraith a rhoi twll mewn rhan bersonol o gorff plentyn neu berson ifanc o dan 18 oed yng Nghymru. Os bydd y person sy'n gwneud y twll yn cael ei ddyfarnu'n euog, bydd raid iddo dalu dirwy.

Sut gall y tyllwr gadarnhau oed rhywun? – Nid yw hynny wedi'i nodi yn y gyfraith newydd, ond gallai'r tyllwr ofyn am gael gweld un o'r dogfennau hyn: pasbort; trwydded yrru cerdyn ffotograff yr Undeb Ewropeaidd; cerdyn adnabod ffotograffig yn dangos hologram y Cynllun Safonau Prawf Oedran (PASS) cenedlaethol; neu unrhyw ddogfen arall sy'n profi bod y person yn 18 oed neu'n hŷn. Nid yw'n ddigon i'r tyllwr benderfynu bod y person ifanc yn edrych fel petai dros 18 oed – rhaid iddo gymryd camau gofalus i edrych ar ddogfennau i wneud yn siŵr bod y person yn 18 oed neu'n hŷn, neu bydd yn torri'r gyfraith.

Pwy fydd yn gwneud yn siŵr bod busnesau tyllu'r corff yn cadw at y gyfraith newydd? – Awdurdodau lleol Cymru fydd yn gwneud hyn, a gallant ofyn i'r heddlu am help hefyd.

Ble galla i gael mwy o wybodaeth? – Gall dy awdurdod lleol roi gwybodaeth a chyngor i ti ac mae gwybodaeth ar gael hefyd ar wefan Llywodraeth Cymru – www.llyw.cymru/deddfiechydychoedd